*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/06/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch (01745 535286)** |
| Pwnc | **Datganiad o Gyfrifon 2018/19 (drafft)** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Datganiad o Gyfrifon 2018/19 (drafft) i'r Aelodau, a gofyn am ddirprwyo'r gwaith o gymeradwyo'r fersiwn archwiliedig terfynol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2017, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gymeradwyo cyllideb refeniw o £34.1m. Mae'r Cyfrifon drafft yn cadarnhau gorwariant bach o £3k.

3 Fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo cyllideb gyfalaf o £4.9m ym mis Rhagfyr 2017, a chynyddodd honno i £5.9m ar gyfer prosiectau a oedd yn weddill ers 2017/18. £1.9m oedd y gwariant cyfalaf yn 2018/19, sy'n adlewyrchu'r camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i ohirio a lleihau'r rhaglen gyfalaf.

4 Mae'r Awdurdod yn cadw cronfeydd a glustnodwyd er mwyn cael arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau neu risgiau yn y dyfodol. Ar 31 Mawrth 2019, roedd cyfanswm o £0.8m ar gael mewn cronfeydd a glustnodwyd.

**ARGYMHELLIAD**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi sefyllfaoedd yr alldro refeniw a chyfalaf drafft fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19;
(ii) dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo Datganiad archwiliedig terfynol o Gyfrifon 2018/19 i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 29 Gorffennaf 2019; a
(iii) cymeradwyo'r cronfeydd a glustnodwyd fel sydd yn Natganiad o Gyfrifon 2018/19.

## SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

6 Nid yw'r Aelodau wedi ystyried yr adroddiad hwn o'r blaen.

## CEFNDIR

7 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa'r alldro gwariant refeniw a chyfalaf drafft am flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb hefyd o'r eitemau allweddol ar y fantolen, gan gynnwys cynnal cronfeydd a glustnodwyd.

8 Nodir yn yr adroddiad pa grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn, ond mae'r rheini wedi'u heithrio o'r ffigyrau cyfalaf a refeniw a adroddir.

## GWYBODAETH

## Y GYLLIDEB REFENIW

9 Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa'r alldro refeniw drafft am flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'n dangos bod gorwariant o £3k o'i gymharu â'r gyllideb o £34,140k.

| **Refeniw** | **Cyllideb £000** | **Gwirionedd £000** | **Amrywiad £000** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 24,777 | 24,737 | (40) |
| Safleoedd | 1,726 | 1,832 | 106 |
| Cludiant | 991 | 1,076 | 85 |
| Cyflenwadau | 3,248 | 3,568 | 320 |
| Taliadau Trydydd Partïon | 1,028 | 1,035 | 7 |
| Ariannu Cyfalaf | 3,035 | 2,649 | (386) |
| Incwm | (665) | (884) | (219) |
| Cyfraniad i Gronfeydd | 0 | 130 | 130 |
| **Cyfanswm** | **34,140** | **34,143** | **3** |

| **Cyllid Refeniw** | **Cyllideb £000** | **Gwirionedd £000** | **Amrywiad £000** |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau Awdurdodau Lleol | (33,493) | (33,493) | 0 |
| Cronfeydd Cyffredinol | (647) | (650) | (3) |
| **Cyfanswm** | **(34,140)** | **(34,143)** | **(3)** |

### Costau Gweithwyr

10 Ym mlwyddyn ariannol 2018/19, £24,777k oedd y gyllideb ar gyfer gwariant ar weithwyr, sef 71% o'r gwariant. Sefyllfa'r alldro drafft yw tanwariant o £40k. Cafwyd pwysau sylweddol oherwydd

gweithgareddau yn ystod haf 2018, ac arweiniodd hyn at gostau ychwanegol ar staff diffodd tân. Aethpwyd i'r afael â'r costau hyn drwy reoli swyddi gwag yn y tymor byr.

**Safleoedd**

11 £1,832k yw gwariant y flwyddyn lawn ar safleoedd, sef gorwariant o £106k (6.1%) o'r gyllideb. Mae'r meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â'r gorwariant yn cynnwys gwaith trwsio a chynnal a chadw, costau trydan, a chostau unigryw ar yr arolwg cyflwr.

12 Mae'r gorwariant yn cael ei wrthbwyso'n rhannol drwy incwm ychwanegol o ganlyniad i feddiannu adeiladau ar y cyd, a dangosir hyn o fewn yr incwm.

**Cludiant**

13 £1,076k yw'r gwariant ar Gludiant, sydd £85k yn fwy na'r gyllideb (8.5%). Nodir y gorwariannau allweddol dan y gwaith trwsio a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ychwanegol a gwaith ar gontract allanol oherwydd y tanau yn yr awyr agored. Mae costau tanwydd yn bwysau allweddol hefyd, oherwydd prisiau uwch a lefel gweithgareddau. Mae'r costau hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan incwm o ganlyniad i werthu cerbydau (£64k).

**Cyflenwadau**

14 £3,056k yw'r gwariant ar Gyflenwadau, sef gorwariant o £320k o gymharu â'r gyllideb (9.8%)

15 Er bod pwysau gweithgareddau wedi cyfrannu at y gorwariant, y meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â'r gorwariant yw costau gwisgoedd a gwariant ar gyfrifiaduron.

**Ariannu Cyfalaf**

16 £2,649k yw'r costau ariannu cyfalaf, sef £386k yn llai na'r gyllideb (12%). Mae'r costau ariannu cyfalaf yn cynnwys y ffi ar y refeniw am ddisbrisiad a hefyd cost benthyca. Roedd cost benthyca £91k yn llai na'r disgwyl oherwydd y gostyngiadau yn rhaglen gyfalaf 2018/19 a'r defnydd o dderbyniadau cyfalaf o ganlyniad i werthu hen orsaf dân Wrecsam.

**Incwm**

**17** Cafwyd incwm o £884k, sydd 32% yn fwy na'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys incwm ychwanegol yn ystod y flwyddyn oherwydd prosiect Wylfa Newydd ac incwm ychwanegol gan rent ar safleoedd erialau a safleoedd rydym yn eu meddiannu ar y cyd.

**Arian Grant Refeniw**

18 Roedd y gwariant ar grantiau yn cynnwys £14k o darnwariant bach.

| | Gwariant £000 | Incwm £000 | Amrywiad £000 |
|---|---|---|---|
| Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol | 151 | (148) | 3 |
| Ymyriadau'r Gwasanaeth Tân | 204 | (203)) | 1 |
| Y Ffenics | 164 | (162) | 2 |
| Dimensiynau Newydd | 473 | (465) | 8 |
| Firelink | 416 | (416) | 0 |
| **Total** | **1,408** | **(1,394)** | **14** |

**Y RHAGLEN GYFALAF**

19 Fe wnaeth yr Awdurod gymeradwyo rhaglen gyfalaf o £4,900k, a chynyddodd hon i £5,890k ar gyfer prosiectau sydd yn weddill ers 2017/18.

20 Nodir isod y sefyllfa yn y flwyddyn lawn, a chadarnheir pa gamau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn ariannol i adolygu a rheoli'r rhaglen gyfalaf.

| **Adran** | **Cyllideb £** | **Gwirionedd £** | **Amrywiad £** |
|---|---|---|---|
| Ystadau | 743 | 528 | (215) |
| Gwaith Adeiladu Mawr | 503 | 1 | (502) |
| Mân Waith Adeiladu | 140 | 53 | (87) |
| Technoleg Gwybodaeth | 1,899 | 617 | (1,282) |
| Offer Gweithredol | 1,575 | 199 | (1,376) |
| Cerbydau | 1,029 | 311 | (718) |
| Timau Aml-ddisgyblaethol sy'n cael arian grant | 0 | 143 | (143) |
| **Cyfanswm** | **5,890** | **1,853** | **(4,323)** |

21 Dyma'r meysydd allweddol lle cafwyd tanwariant:

- adnewyddu'r tŷ mwg yn Nolgellau;
- bydd prosiect Windows yn symud yn ei flaen yn Ebrill 2019;
- llithriant yn amserlenni'r system newydd ar gyfer gorchymyn a rheoli digwyddiadau a'r terfynellau data symudol ar beiriannau;
- oedi wrth gytuno ar dendr Cymru gyfan i adnewyddu'r cit tân; ac
- ad-drefnu'r gwaith o brynu peiriannau tân newydd oherwydd cynnydd yn oes asedau cerbydau.

## Y FANTOLEN

22 Mae'r Fantolen yn darparu rhagor o wybodaeth am sefyllfa ariannol hirdymor yr Awdurdod, ac mae ar gael ar dudalen 16 o'r Cyfrifon (yn Atodiad 1). Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth.

### Asedau Sefydlog a Benthyciadau

23 Mae asedau sefydlog yn ymwneud ag eitemau sy'n costio mwy na £1,000 ac y mae disgwyl iddynt gael eu defnyddio dros gyfnod mwy na 12 mis. Mae asedau sefydlog yr Awdurdod yn cynnwys tir ac adeiladau, cerbydau ac offer, gan gynnwys citiau tân a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Amcangyfrifir mai £48.8m yw'r gwerth ar 31 Mawrth 2019 (2017/18: £51.4m). Mae'r gostyngiad o'r naill flwyddyn i'r llall yn gysylltiedig â gwerthu cerbydau a dibrisiad yn ystod y flwyddyn, sy'n cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan ychwanegiadau i'r rhaglen gyfalaf. Tir ac adeiladu'r Awdurdod yw 73% o'r holl asedau, a £35.6m yw'r gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019.

24 Caniateir i'r Awdurdod gael trefniadau benthyca i brynu asedau sefydlog. Ar 31 Mawrth 2019, £32.6m oedd gwerth y benthyciadau (2017/18: £35.6m). Mae'r costau ariannu cyfalaf yn y sefyllfa refeniw yn cynnwys £387k yn gysylltiedig â thaliadau llog ar fenthyciadau.

### Yr Asedau Cyfredol a'r Ymrwymiadau Cyfredol

25 Rhaid i'r Awdurdod gynnal adnoddau digonol i sicrhau ei fod yn gallu cwrdd â'i ymrwymiadau. Mae'n gwneud hyn drwy reoli arian parod ochr yn ochr â balansau dyledwyr a chredydwyr. Ar ddyddiad y fantolen, roedd yr Awdurdod wedi cofnodi balans o £3.8m ar gyfer arian parod a dyledwyr. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan £2.7m o symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod i gredydwyr.

### Ymrwymiadau Pensiwn

26 Rhaid i'r Awdurdod roi cyfrif am yr ymrwymiadau a amcangyfrifir mewn perthynas â'i gynlluniau pensiwn. Mae gan yr Awdurdod ddau gynllun, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwerth yr ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol yn cael ei gyfrifo gan yr actiwari ar gyfer pob cynllun, ac amcangyfrif y bydd yn £319.3m ar 31 Mawrth 2019 (2017/18: £313.1m).

### Cronfeydd defnyddiadwy

27 Roedd cronfeydd yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2019 yn £2.145m. Mae hyn yn cynnwys £770k o gronfeydd a glustodwyd, a £1,375k o gronfeydd cyffredinol.

28 Cronfa a glustnodwyd yw cronfa sy'n cael ei chreu ar gyfer eitemau penodol sy'n hysbys ar ddyddiad y fantolen ac a allai greu ymrwymiad yn y dyfodol. Mae gan yr Awdurdod bump o gronfeydd wedi'u clustnodi, ac mae'r manylion ar gael yn y tabl isod:

| | Gwerth £'000 | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Pensiwn | 85 | Dyma gronfa hirdymor a sefydlwyd i liniaru effaith costau annisgwyl yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau pensiwn. |
| Cynllun Radio | 300 | Mae'r Awdurdod yn cael arian grant i gefnogi'r rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth brys oherwydd mae rhwydwaith newydd wrthi'n cael ei gaffael. Sefydlwyd y gronfa i liniaru'r risg y byddai costau ychwanegol yn ystod y cyfnod caffael. |
| Lleihau Grant | 195 | Mae'r Awdurdod yn gwneud gwariant refeniw sy'n £1.3m ac yn cael ei ariannu drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru. Cytunir ar y rhain bob blwyddyn, ac mae'r gronfa ar gael i fynd i'r afael â chostau byrdymor sy'n digwydd oherwydd gostyngiadau yn yr arian grant. |
| Llog | 100 | Sefydlwyd y gronfa hon i liniaru effaith amrywiadau yn y cyfraddau llog |
| Hydrantau Tân | 90 | Dyma gronfa newydd a sefydlwyd yn 2018/19 i dalu am waith cynnal a chadw sydd wedi cronni |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant hirdymor ATAGC. Mae arian ar gyfer y Gwasanaeth yn rhywbeth sydd o fudd i gymunedau Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad mewn seilwaith i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu darparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwydydn yn unol â gwaith darparu gwasanaethau arfaethedig, sy'n cynnwys ymateb brys a gwaith ataliol. |
| **Cyfreithiol** | Mae gofyn cyfreithiol i'r Awdurdod lunio'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r safonau a ragnodwyd. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos i sicrhau bod unrhyw wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael ei ganfod yn gywir a' adrodd i'r Aelodau. |